Cenn@d
GORFFENNAF 23 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 230

# Croeso Eisteddfod Wrecsam

Ymhen ychydig ddyddiau, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ei maes ar gyrion Wrecsam i'r cyhoedd ar gyfer wythnos o gystadlu brwd a chyfle i fwynhau a gwerthfawrogi perfformiadau gan ddoniau amlycaf Cymru. Bydd tystiolaeth yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, ac yma mae Aled Davies yn crynhoi'r hyn fydd yn digwydd dros gyfnod yr Eisteddfod yn Wrecsam rhwng 2 a 9 Awst eleni.

**Croeso Pabell yr Eglwysi**
Pabell tystiolaeth yr eglwysi yw hon, dan nawdd Cytûn, gan gofio mai tystiolaeth Gristnogol yr eglwysi lleol sy'n cyfri. Chwiliwch amdanom – rhif yr unedau yw 116–122, a byddwn wedi ein rhestru ar y map gewch chi wrth ddod i mewn i'r maes.

Bydd dros 200 o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi lleol yn rhan o'r gwaith o groesawu pobl i'r babell, yn gweini paneidiau ac yn cynnal gweithgarwch dyddiol i blant. Fe fyddwn ni yno rhwng 9 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch yr hwyr dros gyfnod o wyth diwrnod i groesawu a chynnig lletygarwch – cadair i orffwys a chyfle am sgwrs ddifyr, paned o de neu goffi (neu ddiod oren), heb anghofio'r Welsh cêcs cwbl hanfodol. Fel arfer, mae 5,000 ohonyn nhw'n cael eu bwyta yn y babell mewn wythnos. A ddim jest fi sy'n eu bwyta nhw! Fe ddaw miloedd i mewn i'r babell i dderbyn o groeso'r eglwysi.

Bob blwyddyn mae'n fraint cael croesawu pawb atom, yn bobl o bob ffydd neu heb ffydd – yr un fydd y croeso i bawb. A chofiwch, os byddwch chi'n dod i gyfeiriad Wrecsam, galwch i mewn! Rydyn ni'n barod i'ch croesawu am sgwrs a phaned, a bydd yna gyfle i brynu llyfr neu ddau a rhaglen lawn o weithgareddau i bob oed. Ymhlith y pigion eleni byddwn yn cofio ac yn dathlu pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed, 1,700 mlynedd ers Credo Nicea a chanmlwyddiant Deiseb Heddwch yr Eglwysi a gwaith Gwilym Davies. Bydd gennym arddangosfeydd i nodi'r tri digwyddiad hyn.

**Chwilio am baned ar faes yr Eisteddfod?**

**Bydd pabell yr Eglwysi yno i'ch croesawu - gyda gwaith plant, defosiwn dyddiol, stondin lyfrau ac arddangosfeydd.**

Byddwn ar y maes yn ôl ein harfer. Galwch i'n gweld am baned a chroeso.






**Gwaith plant**
Ar gyfer y plant, fe fydd cornel yn llawn gweithgareddau: cyfle i adeiladu model allan o Lego, gyda gwobr ddyddiol o Feibl lliw i'r sawl fydd yn creu'r model gorau. Bydd cyfle i wneud gwaith crefft, chwarae gemau fel Jenga, Knex, Connect 4 a model o Arch Noa. I'r rhai sy'n hoffi gwneud pethau mwy creadigol, bydd cyfle i wneud breichled a pheintio ffenestr liw, yn ogystal â gweithgareddau dyngarol dan ofal Cymorth Cristnogol.

**Yr enwadau a mudiadau eraill**
Mae'r babell yn cynrychioli'r holl enwadau dan ymbarél Cytûn, yn ogystal â mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, ARocha a'r Cyngor Ysgolion Sul, a fydd yno i gyfarfod pobl a rhannu am eu mentrau a'u cenadaethau diweddaraf. Bydd cynrychiolwyr o'r enwadau yn galw i mewn, yn Ysgrifenyddion Cyffredinol, Llywyddion a gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol, yn barod am sgwrs dros baned.

Bydd Cymorth Cristnogol, sy'n 80 oed eleni, yno i rannu am sawl project yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd. Bydd Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl yno i sôn am adroddiad diweddar 'Y Diwygiad Tawel' a chynlluniau diweddaraf y Gymdeithas.

Nod y Cyngor Ysgolion Sul fydd cynnal sgyrsiau efo arweinwyr lleol dros Gymru i drafod gwaith cenhadol i blant, er mwyn sefydlu gweithgarwch newydd lle mae ysgolion Sul wedi darfod erbyn hyn. Yn ôl yr arfer, bydd dewis eang o lyfrau ac adnoddau, heb anghofio'r cardiau Nadolig newydd, ar werth gydol yr wythnos.



**Addoli**
Bydd cyfle hefyd i addoli yn ystod yr wythnos. Bob dydd (heblaw dydd Sul) cynhelir oedfa yn y babell am 11 o'r gloch. Bydd yr oedfaon hyn yng ngofal arweinwyr ac eglwysi o ardaloedd penodol o fewn dalgylch yr Eisteddfod.

Bore Sul, 3 Awst, am 10 o'r gloch cynhelir yr oedfa ym Mhafiliwn y Steddfod, ar thema 'Y Ffin'. Noder y bydd angen tocyn mynediad i'r maes arnoch, a bydd hynny'n caniatáu i chi fynd i'r pafiliwn ar gyfer yr oedfa ac aros ar y maes tan 10.30 y noson honno, os dymunwch. Bydd yr oedfa yng ngofal nifer o bobl y fro, dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd. Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn y noson honno. Bydd angen tocyn arall ar gyfer cael mynediad i'r Gymanfa, a chyfle i glywed Côr y Gymanfa.

Bydd y Cylch Catholig yn falch o'ch croesawu nos Iau, 7 Awst, am 6 o'r gloch i Offeren y Steddfod, a hynny yng Nghadeirlan y Santes Fair, Wrecsam (LL11 1RB), gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Bydd Eglwys San Silyn yn y dref hefyd yn agored o 1.00 tan 4.00 bob prynhawn, gyda chyfle i fynd ar daith i'r tŵr.

Yn ystod yr wythnos cawn hefyd ambell ddatganiad ar y piano gan Meilir Tomos, a fydd hefyd yn gwerthu ei CD o emynau, gyda'r elw yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.

**Lansiadau**
Bydd nifer o lyfrau yn cael eu lansio yn y Steddfod, gan gynnwys rhai ohonynt ar stondin Pabell yr Eglwysi. Ymhlith yr awduron a fydd y cyhoeddi llyfrau newydd y mae Aled Edwards, Aled Jones Williams, Arwel Ellis Jones, D. Ben Rees, Owain Llŷr Evans, Huw John Hughes ac eraill.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Eglwysi a chapeli hanesyddol Wrecsam
**Tudalen 3**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 5**

Undeb y Bedyddwyr yn creu Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs) i hybu cenhadaeth
**Tudalen 8**

*Croeso Eisteddfod Wrecsam* *(parhad o dudalen 1)*

# Amserlen yr wythnos, wedi ei chasglu gan Cytûn:

Dyma'r digwyddiadau rydym yn ymwybodol ohonynt ar hyn o bryd:

**Dydd Sadwrn, 2 Awst**

11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad byr i lyfrau newydd yr haf – 8 teitl newydd

2.00 – Pabell y Cymdeithasau: Sesiwn 'Heddwch' gan Gymdeithas y Cymod

**Dydd Sul, 3 Awst**

10.00 – Pafiliwn: Oedfa'r Eisteddfod dan arweiniad Jen Eynon a chriw Ysgol Morgan Llwyd

1.00 – Babell Lên: Sesiwn yng nghwmni'r Parchedig Aled Lewis Evans, Wrecsam

4.15 – Pabell Encore: 'Dathlu emynau Godfrey Williams'

7.00 – Pafiliwn: Y Gymanfa Ganu (bydd angen tocyn ar gyfer hon)

**Dydd Llun, 4 Awst**

10.00–4.00 – Pabell Cytûn: Sesiwn creadigol i blant gan griw Explore Science

11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: *Yng Ngolwg Ffydd* – lansio llyfr newydd gan Owain Llŷr Evans

11.45 – Pabell Cytûn: 'Dyfodol Hyfforddiant Diwinyddol yng Nghymru' – cyflwyniad gan Rosa Hunt a Manon Ceridwen James

12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80 oed – 'Grym anorchfygol gobaith': diolch am 80 mlynedd o weithgarwch ac yna datganiad ar y piano gan Meilir Tomos

1.30 – Pabell Cytûn: *Llwybr Cadfan* – derbyniad a chyflwyniad, a lansio cyfrol newydd gan Elin Owen, Sian Northey a Siôn Aled Owen

3.30 – Pabell Cytûn: Sgwrs a thrafodaeth: 'Ydi pêl-droed yn grefydd arall i ni fel Cymry?' dan ofal Manon Ceridwen James

6.00 – Pabell Cytûn: Gwylnos heddwch dan arweiniad Cymorth Cristnogol

**Mawrth, 5 Awst**

10.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: ' "Y Diwinydd o Dre Wrecsam": C. H. Dodd a'i gyfraniad i ysgolheictod Beiblaidd', darlith gan yr Athro Eryl Wynn Davies

10.30 – Pabell Prifysgol Bangor: 'Y Da, y Drwg a'r Deadpool: Ffilmiau Marvel fel Chwedlau Moesol Modern' – darlith gan Dr Gareth Evans-Jones

11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: *Cyrraedd Bannau* – lansio llyfr newydd gan Aled Edwards, gyda Sian Wyn Rees yn holi'r awdur

12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80 oed – 'Grym anorchfygol gobaith': diolch am 80 mlynedd o weithgarwch ac yna datganiad ar y piano gan Meilir Tomos

12.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Diogelu'r Trysor' – sgwrs gan Eirlys Gruffydd-Evans ar hanes ffynhonnau sanctaidd Cymru

1.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Chwilota yn Neiseb Heddwch Merched Cymru', gydag Angharad Tomos

1.50 – Pafiliwn: Cystadleuaeth 'Canu emyn neu gân o fawl'

2.00 – Pabell Cytûn: Canmlwyddiant Apêl Heddwch yr Eglwysi, sgwrs gan Cynan Llwyd

2.15 – Pafiliwn: Cystadleuaeth Llefaru o'r Ysgrythur

3.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'Cofio Tegla', gan Bob Morris, dan nawdd Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd

**Dydd Mercher, 6 Awst**

10.30 – Pabell y Cymdeithasau: 'O Forgan Llwyd i Lewis Valentine' – golwg ar emynwyr a charolwyr bro'r Eisteddfod, gan yr Athro E. Wyn James (Cymdeithas Emynau Cymru)

11.00 – Pabell Cytûn: oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: *Reit Rownd*, lansio llyfr newydd gan Aled Jones Williams, gyda Rhys Llwyd yn holi'r awdur

11.45 – Pabell Cytûn: ' Y Diwygiad Tawel' cyflwyniad i'r adroddiad, gan Sian Wyn Rees, Cymdeithas y Beibl

2.00 – Pabell Cytûn: 'Gweddi a gweithred dros Gaza' – i gyd-fynd â'r weithred #YmprydioDrosGaza sy'n cael ei chynnal bob dydd Mercher

4.00 – Pabell y Cymdeithasau: Cyflwyniad gan Gymdeithas y Cymod ar ddydd cofio Hiroshima

6.30 – Tŷ Gwerin: 'Canu yn yr Ysbryd' – cyflwyniad ar ffydd mewn cerddoriaeth, gyda Siân Meinir, Lleuwen Steffan a Dafydd Iwan, dan nawdd Cristnogaeth21






**Dydd Iau, 7 Awst**

11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: *Dyrys Daith*, lansio llyfr newydd ar newid hinsawdd gan Huw John Hughes yng nghwmni Geraint Tudur, gyda chyflwyniad gan Delyth Higgins ar waith ARocha

11.45 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad i'r cylchgrawn *Cristion* yng nghwmni Sian Elin

12.00 – Pabell Cytûn: Cymorth Cristnogol yn 80, 'Grym anorchfygol gobaith' – diolch am 80 mlynedd o weithgarwch, a datganiad ar y piano gan Meilir Tomos yn dilyn

2.00 – Pabell Cytûn: Sgwrs fer ar hanes 1700 mlwyddiant Credo Nicea gan Geraint Tudur

**Dydd Gwener, 8 Awst**

10.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: 'Cofio Euros Bowen, Clasurydd Wrecsam': teyrnged i'r bardd-offeiriad Euros Bowen (1904–88) a'i ddiddordeb creadigol ym myd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid – darlith gan yr Athro Ceri Davies

11.00 – Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 – Pabell Cytûn: *Bywyd â Phwrpas* – lansio addasiad Cymraeg gan Arwel Ellis Jones o gyfrol Rick Warren, *The Purpose Driven Life*, sesiwn yng ngofal Arfon Jones

11.45 – Pabell Cytûn: Cyflwyniad gan Gymorth Cristnogol: 'Ewyllys Da / Faith Will', ymgyrch gydenwadol cymunroddion sy'n cael ei lansio yng Nghymru am y tro cyntaf

12.30 – Pabell y Cymdeithasau 2: 'Pwytho Heddwch': ymateb creadigol artist i Ddeiseb Heddwch Menywod Cymru, gan Bethan M. Hughes (Archif Menywod Cymru)

1.00 – Pabell y Cymdeithasau: Lansio *Gofal ein Gwinllan, cyfrol 3*, a darlith gan D. Densil Morgan

2.00 – Pabell Cytûn: Derbyniad i longyfarch Gethin Rhys a John Morgans ar eu hurddo i'r Orsedd, ac i ddiolch am eu gwaith dros Cytûn ac eciwmeniaeth

2.00 – Pabell y Cymdeithasau: 'Dod â hedd i garchardai' – sgwrs am waith caplaniaid y Crynwyr, gydag Emma Roberts

**Dydd Sadwrn, 9 Awst**

11.00 – Pabell Cytûn: oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r babell.

*Aled a Delyth Wyn Davies*
*Trefnyddion digwyddiadau Cytûn*

# Eglwysi a chapeli hanesyddol Wrecsam

Mae bro'r Eisteddfod yn llawn o eglwysi nodedig ac mae rhai ohonynt wedi eu cofrestru gan CADW. Dyma flas i chi o'r hyn sydd i'w weld yma, heb anghofio hefyd am gyfraniad nodedig Morgan Llwyd yn yr ardal hon.

**Eglwys San Silyn, Wrecsam**
Mae'r eglwys hon – eglwys plwyf yng nghanol Wrecsam – yn gofrestredig, Gradd 1. Mae addoldy wedi sefyll ar y safle ers y 13eg ganrif o leiaf, ond codwyd y rhan fwyaf o'r adeilad presennol yn y 15fed ganrif. Mae'n debyg mai'r Arglwyddes Margaret Beaufort, mam Harri Tudur a gwraig Thomas Stanley, iarll Derby, a noddodd yr adeilad newydd. Os felly, mae'r eglwys yn un o nifer yng ngogledd-ddwyrain Cymru a noddwyd gan y teulu Stanley, yn eu plith eglwysi plwyf Gresffordd a'r Wyddgrug, a Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon.

Caiff Eglwys San Silyn ei hystyried yn un o gampweithiau pensaernïol Cymru, ac yn ôl rhigwm Saesneg o'r ddeunawfed ganrif, mae ei thŵr yn un o Saith Rhyfeddod Cymru. Mae'r eglwys yn enwog yn rhyngwladol am fod Elihu Yale, a roes ei enw i Brifysgol Yale yn yr Unol Daleithiau, wedi'i gladdu yn y fynwent.

Daw'r cyfeiriad cynharaf at eglwys yn Wrecsam o 1220, pan roddwyd haner incwm degymau'r eglwys honno i Abaty Glyn-y-groes gan Reyner, esgob Llanelwy. Ceir cyfeiriad arall ati ym 1247 pan roddwyd rhagor o ddegymau'r eglwys i'r abaty gan Madog ap Gruffydd, tywysog Powys. Ar 15 Tachwedd 1330 chwythwyd y clochdy i lawr ac ailadeiladwyd yr eglwys yn gyfan gwbl. Y gred boblogaidd oedd fod Duw wedi cosbi'r dref am gynnal marchnad ar y Sul, a symudwyd diwrnod marchnad Wrecsam i ddydd Iau o ganlyniad i hyn.



Llosgodd eglwys y 14eg ganrif gan mlynedd wedi iddi gael ei hadeiladu, ac fe'i hailgodwyd yn yr arddull Gothig hwyr a elwir yn 'berpendicwlar', efallai dan nawdd yr Arglwyddes Margaret Stanley. Dyma un o'r eglwysi mawr olaf a adeiladwyd yn y deyrnas cyn y Diwygiad Protestannaidd.

**Eglwys Sant Chad, Holt**
Eglwys ac adeilad rhestredig Gradd I ym mhentref Holt yw Eglwys Sant Chad, sy'n rhan o Esgobaeth Llanelwy. Mae'n debyg fod yr eglwys yn dyddio o'r 1280au pan ymsefydlodd y teulu Warren yno. Ceir y cyfeiriad cyntaf at yr eglwys mewn dogfen o 1379. Ailfodelwyd ac estynnwyd yr eglwys ar ddiwedd y 15fed ganrif o dan nawdd Syr William Stanley. Yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr cafodd ei ddifrodi pan oedd lluoedd y Senedd yn byw yno; mae marciau bwledi i'w gweld o hyd yn y waliau a'r pileri ym mhen gorllewinol yr eglwys. Yn 1732 adnewyddwyd yr eglwys; roedd y gwaith hwn yn cynnwys dinistrio llofft y grog a'r sgriniau, a chafwyd gwaith adfer sylweddol eto ym 1871–73. Mae'n eglwys sy'n werth ymweld â hi, a chefais innau gyfle i fynd yno am y tro cyntaf yn ystod yr wythnosau diwethaf – diolch i gyngerdd codi arian at Eisteddfod Wrecsam!



**Eglwys yr Holl Saint, Gresffordd**
Eglwys gofrestredig Gradd 1 o'r 13eg ganrif, yw Eglwys yr Holl Saint, Gresffordd. Mae cyfeiriad at yr eglwys mewn dogfen hynafol, sydd bellach ar goll, lle dywedir bod Trahaearn ap Ithel ap Eunydd a'i bum brawd wedi sefydlu'r eglwys ac wedi rhoi'r tir ar ei chyfer. Ychwanegwyd ystlys, estynnwyd y gangell ac ychwanegwyd claddgell yn y 14eg ganrif.

Dymchwelwyd yr hen eglwys yn y 15fed ganrif, ac adeiladwyd yr eglwys bresennol. Cadwyd rhannau'n unig o'r waliau gorllewinol a dwyreiniol. Adeiladwyd yr eglwys o dywodfaen o ardal Cefn Mawr. Tu mewn i'r eglwys mae corffddelw, o Fadog ap Llywelyn ap Gruffudd, mwy na thebyg. Hefyd, mae yna gerflun hynafol o Atropos ar hen allor Rhufeinig, cerflun o Syr David Hanmer (tad yng nghyfraith i Owain Glyndŵr) a llechen er cof am Goronwy ap Iorwerth. Yn ymyl y drws gogleddol mae cofeb i'r 266 o fechgyn lleol a laddwyd yn nhrychineb Gresffordd.

Yn ôl hen rigwm, mae clychau'r eglwys yn un o Saith Rhyfeddod Cymru.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Eglwysi a chapeli hanesyddol Wrecsam* *(parhad o dudalen 3)*

**Eglwys Sant Paul, Is-y-coed**
Dyma'r eglwys agosaf at faes yr Eisteddfod ac mae wedi ei lleoli mewn llecyn gwledig. Mae'r adeilad wedi ei gofrestru, Gradd 2, ac mae'n debyg fod y cofnod cyntaf o eglwys ar y safle yn 1715. Ailadeiladwyd hi yn 1742, a chynlluniwyd yr adeilad presennol gan John Butler a'i adeiladu yn 1829 ar gost o £700. Mae'n enghraifft ardderchog o eglwys o ddechrau'r 19eg ganrif. Roedd yn braf cyfarfod â Sian o'r eglwys yn ein sesiwn i drefnu Pabell yr Eglwysi, a diolch iddi am gynnig cymorth ymarferol gyda threfniadau'r babell. Ceir newyddion am yr eglwys ar Facebook.

**Eglwys Sant Chad, Hanmer**
Mae Eglwys Sant Chad ym mhentref Hanmer ar y ffordd i'r Eglwys-wen (Whitchurch) yn hardd iawn ac mewn safle arbennig ger y Mere, ac wedi ei chofrestru, Gradd 2. Roedd yr eglwys flaenorol ar y safle yn dyddio o ganol y 12fed ganrif ac yno, tua 1383, priodwyd Margaret Hanmer ac Owain Glyndŵr. Difrodwyd y lle yn 1463 yn ystod Rhyfel y Rhosynnau yn y cyfnod pan oedd Dafydd ab Edmwnd yn byw ac yn ysgrifennu yma. Cafwyd to newydd i'r eglwys yn 1892 ar ôl tân yno. Bu'r bardd R. S. Thomas yn gurad yma yn ystod blynyddoedd cyntaf yr Ail Ryfel Byd.



**Capeli anghydffurfiol**
Mae capeli nodedig o hardd a'r rhai mwyaf o ran maint o fewn yr ardal ym mhentref Rhosllannerchrugog, sef Capel Jerusalem (Capel Mawr EBC), Capel Bethlehem (A) a Chapel Penuel (B).

**Capel Penuel (Bedyddwyr), Rhosllannerchrugog**
Capel deulawr a adeiladwyd yn 1856–9, â blaen y capel wedi ei ychwanegu o frics dan gynllun Owen Morris Roberts, Porthmadog. Dechreuodd Rhys Bevan Jones ei ymgyrch efengylu ym Mhenuel yn ystod Diwygiad 1904/05. Un o weinidogion yr eglwys oedd Lewis Valentine.

**Morgan Llwyd**
Ni ellir sôn am etifeddiaeth Gristnogol ardal Wrecsam heb gydnabod cyfraniad Morgan Llwyd. Bardd, llenor rhyddiaith a chyfrinydd oedd Morgan Llwyd (1619–3 Mehefin 1659), ac fe gafodd ei eni yng Nghynfal-fawr (hen blasty gwledig, filltir i'r de o Ffestiniog) ym mhlwyf Maentwrog yn yr hen sir Feirionnydd (de Gwynedd heddiw), i'r un teulu â'r bardd Huw Llwyd. Fe'i gelwir weithiau yn Morgan Llwyd o Wynedd. Roedd yn awdur toreithiog yn y Gymraeg ac ysgrifennodd ambell destun Saesneg yn ogystal. Roedd yn Biwritan argyhoeddedig a digyfaddawd, ond ni pherthynai iddo'r culni meddwl a gysylltir â'r mudiad crefyddol hwnnw. Mae'n debyg mai yn Wrecsam y cafodd ei addysg ffurfiol, pan oedd y Piwritan Walter Cradock yn gurad yno, a bu Cradock yn athro crefydd i Forgan Llwyd am weddill ei oes.

Crwydrodd Morgan Llwyd gryn dipyn wedyn, a chawn ei fod yn Llanfair Waterdine yn Swydd Amwythig ac yna yn Llanfaches yn y de. Pan dorrodd Rhyfel Cartref Lloegr allan yn 1642 ffodd rhag erledigaeth i Fryste ac wedyn i Hampshire. Daeth yn gaplan gyda byddin y Senedd yn y Rhyfel Cartref, ac mae'n debyg iddo grwydro llawer gyda'r milwyr. Erbyn 1647 roedd yn ôl yn Wrecsam, crud Anghydffurfiaeth gogledd Cymru, ac fe'i penodwyd yn weinidog ar yr eglwys anghydffurfiol yno.

Roedd yn un o'r comisiynwyr a benodwyd gan Oliver Cromwell i ymchwilio i gyflwr crefydd yng Nghymru dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru (1650), gyda Walter Cradock, Vavasor Powell, Oliver Thomas, Jenkin Jones, John Miles ac eraill. Ond pan gyhoeddodd Cromwell ei hun yn Arglwydd Amddiffynnwr a dechrau ymddwyn fel unben, roedd Morgan Llwyd ymhlith y bobl ddewr a'i gwrthwynebodd.



Enwyd Ysgol Morgan Llwyd, ysgol gyfrwng Cymraeg Wrecsam a'r cylch, ar ei ôl, ac mae hynny'n cadw ei enw'n fyw yn yr ardal a thrwy Gymru.

Gweddïwn y bydd bendith ar ymweliad yr Eisteddfod â'r fro, a chroeso i chi i gyd i ardal Wrecsam!

*Marian Lloyd Jones*

## Cynorthwyydd Gweinyddol
### (Dwyieithog – Cymraeg/Saesneg)

Lleoliad: Hybrid (Gweithio o adref ac yn y swyddfa yng Nghaerdydd)

Math o Gytundeb: Rhan-amser (hyd at 15 awr yr wythnos)

Dyddiad Cychwyn: Hydref 1, 2025

Mae'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill (CARE – yr Elusen ar gyfer Dibyniaeth, Adferiad a Galluogi) yn chwilio am Gynorthwyydd Gweinyddol ymroddedig i gynorthwyo ein Prif Weithredwr a sicrhau gweithrediad llyfn i'n helusen.

**Prif gyfrifoldebau:**
- Darparu cymorth gweinyddol, gan gynnwys rheoli dyddiaduron a negeseuon e-bost.
- Cadw cofnodion yn unol â pholisïau diogelu data.
- Cynorthwyo gyda dogfennaeth cyfarfodydd a threfniadau digwyddiadau.
- Cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Gofynion:**
- Rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau trefnu a chyfathrebu cryf.
- Profiad mewn swydd weinyddol yn ddymunol.
- Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus dderbyn datgeliad DBS manwl a dilyn prosesau gwirio eraill.
- Mae gofyniad galwedigaethol iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

**Sut i wneud cais:**

Gofynnwch am ffurflen gais trwy anfon e-bost at wynford@recover-council.org neu ffoniwch Wynford ar 029 2063 0993 neu 07796464045. **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1af Medi 2025 am 4yp.**

Ymunwch â ni i gael effaith gadarnhaol ar y gymuned!

# O Gefn Gwlad

## Gwrth-Semitiaeth

Ni allaf honni bod gen i ddarlun clir o gymhlethdod gwleidyddol a chymdeithasol y Dwyrain Canol, lle mae hen ofidiau a hen waeau yn cymysgu â phenderfyniadau, polisïau a gweithredoedd llwythau a llywodraethau. Ond rwyf am fentro rhoi peth sylw i'r testun 'gwrth-Semitiaeth' y tro yma gan fod yna bob math o syniadau'n cael eu nodi amdano, a haeriadau cyhuddgar yn cael eu gwneud yn erbyn pobl am bob math o resymau. Dyma ddiffiniad Geiriadur Rhydychen o'r hyn ydyw: 'Rhagfarn, gelyniaeth anffafriaeth tuag at yr Iddewon ar sail eu crefydd, eu diwylliant a'u cenedligrwydd'. Ie, yn erbyn yr Iddewon, gan mai o'r enw ar un o feibion Noa – Shem – y daw'r gair Semitiaeth: Shem, tad un gangen o Iddewiaeth, yn ôl yr hyn ddatgenir yn Genesis.

Na, nid wyf yn deall holl ddryswch y Dwyrain Canol na thras gymhleth cynifer o'i phoblogaeth. Ond y dyddiau hyn, gyda'r llanast yno, mae'n rhaid i bob un ohonom ofyn y cwestiwn iddo'i hun: ydw i'n wrth-Semitaidd, gan gynnwys pawb yn y pair Iddewig? Cofiwch, pe baech yn datgan neu'n darganfod eich bod, fe fyddech mewn cwmni da gan fod neb llai na Martin Luther yn casáu'r Iddewon. A falle'n wir, oherwydd ei ddaliadau, ei fod wedi rhoi rhyw fath o gyfiawnhad i'r Natsïaid ddial arnynt, gan ladd dros chwe miliwn ohonyn nhw yn y ffyrdd mwya dieflig. Tybed? Cwestiwn i haneswyr dadansoddol yw hwnnw. Ond pe byddech am fod yng nghwmni Luther byddai'n rhaid i chi fod hefyd yng nghwmni Hitler a Himmler a gweddill y giwed Natsïaidd.

Y rhesymau pam yr oedd Luther yn eu casáu oedd am ei fod yn eu gweld yn fygythiad i'r grefydd Gristnogol yn yr Almaen, ac am mai nhw laddodd Iesu, gan i Peilat, y rhaglaw Rhufeinig, roi'r dewis iddyn nhw, ac iddynt ddewis arbed Barabas yn hytrach na Iesu. Ac fe ddatgenir creulondeb y gyfundrefn Iddewig tuag ato gan bawb sy'n canu 'Carol y Swper' ar ddiwedd pob plygain:

> Ein Meichiau a'n Meddyg dan fflangell Iddewig
> Ar agwedd un diddig yn dioddef.

Newidiodd y golygyddion y gair Iddewig i Rufeinig yn y fersiwn diweddaraf o'r garol. Saffach yn sicr, ac yn rhannol gywir hefyd am i Peilat orchymyn iddo gael ei chwipio fel rhan o arferiad y Rhufeiniaid gyda drwgweithredwyr. Ond mae Mathew hefyd yn cofnodi i'r Iddewon ei drin yn debyg. Dyma ran o adnod 67 ym mhennod 26 o'r efengyl: 'Yna poerasant ar ei wyneb a'i gernodio'. Bu trafod a pheth anghytuno ynglŷn â geiriad gwreiddiol 'Carol y Swper' rai blynyddoedd yn ôl. Ond fe ddaliaf fi i gefnogi canu'r fersiwn sy'n sôn am y fflangell Iddewig, dwi'n meddwl, a hynny gan deimlo'n hollol ffyddiog nad wyf yn wrth-Semitaidd wrth wneud. Teimlaf mai'r hyn a wnawn wrth newid yw ceisio esgusodi'r awdurdodau Iddewig a rhoi'r bai i gyd ar y Rhufeiniaid, cenedl nad yw'n bod mwyach.

Pam tybed fod yna gymaint o anghytuno ynglŷn â beth yw gwrth-Semitiaeth y dyddiau hyn? Mae un ateb falle yn eitha syml yn y pen draw, dim ond inni ystyried geiriau Gwynfor Evans yn y Senedd yn 1966 wrth drafod sefyllfa Cymru yn y wladwriaeth Brydeinig. Meddai: 'Does yna ddim cenedl Brydeinig, y mae yna wladwriaeth Brydeinig. Gwladwriaeth o bedair cenedl.' Roedd y llywodraeth Dorïaidd yn cyfeirio at y genedl Brydeinig o hyd, a rŵan dydi'r llywodraeth Lafur ddim gwell.

Dyna'r ateb wnaiff i mi beth bynnag. Y mae yna genedl Iddewig, ac y mae yna wladwriaeth Iddewig, sef Israel, lle mae amrywiaeth o bobl o wahanol genhedloedd yn byw, sefyllfa sy'n gyffredinol wir am genhedloedd eraill hefyd. Awn yn ôl at y genedl Iddewig. Er mai gweithred annynol Hamas gychwynnodd yr helynt diweddaraf yn y Dwyrain Canol, y mae gweithredoedd erchyll yr Israeliaid yn Gaza a'u gorymateb i hynny yn ganlyniad polïsiau eu llywodraeth. Ac mae'r wladwriaeth yno dan arweiniad Netanyahu, dyn drwg asgell dde sy'n ceisio plesio gwleidyddion mwy asgell dde hyd yn oed na fo ac sy'n chwarae'r ystryw o ddannod i bawb wrth-Semitiaeth pan fyddant yn gwrthwynebu ei lanast a'i ladd yn Gaza. Nid gweithredoedd y genedl Iddewig mo hynny, gweithredoedd sy'n ymylu'n sicr ar hil laddiad, na'r penderfyniad i beidio â chael dwy genedl fel yr unig ffordd i sicrhau heddwch. Ac mae diffiniad Geiriadur Rhydychen yn cyfeirio'n benodol at yr Iddewon, nid llywodraeth Israel, fel dioddefwyr gwrth-Semitiaeth.

Pam dweud hyn? Am ei bod yn bwysig felly nad ydym fel Cristnogion yn peidio codi llais a chondemnio erchyllterau rhyfel y Dwyrain Canol gan feddwl y byddai gwneud hynny yn wrth-Semitaidd. A falle ei bod yn bryd inni ddiarddel llyfrau cyfan o'n Beibl sy'n cofnodi creulondeb y wladwriaeth Israelaidd dros y canrifoedd, gan fod eu cynnwys yno yn rhoi iddyn nhw gyfiawnhad i'r rhai sy'n credu ei fod yn air Duw. Canolbwyntiwn yn unig ar y gweithiau hynny sy'n adrodd am gyfiawnder a chariad tuag at bawb. Y Beibl cyfan yn air Duw? Choelia i fawr. Y Beibl yn cynnwys gair Duw? Gallaf dderbyn hynny.

*Elfyn Pritchard*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro

## Galluogwr Cenhadol ar gyfer ardaloedd gwledig de'r Henaduriaeth

Mae'r Henaduriaeth yn chwilio am unigolyn i ysgogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yng nghefn gwlad De Aberteifi a Gogledd Penfro.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 31–35 (£32,150–£34,043) ar raddfa cyflog EBC neu'n uwch, yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Gweithio o gartref; fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.
Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru; ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau : 31 Gorffennaf, 2025, 4pm**

# Credo Nicea

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

**Sesiwn Un – Cread Duw** – o Ynysoedd y Pilipinas

Ysgrifennwyd gan y Barchg Jewel B. Tamaliuan, Iglesia Filipina Independiente (IFI)

Mae'r Barchg Jewel B. Tamaliuan yn weinidog ordeiniedig yn yr IFI ers wyth mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel aelod o'r staff rhaglen yn swyddfa ganolog yr Esgobaeth ac mae'n Ganon yn Eglwys Gadeiriol IFI yn y brifddinas, Manila.

**Yr Eglwys Anglicanaidd yn Ynysoedd y Pilipinas**
Gwlad yn ne-ddwyrain Asia yw Ynysoedd y Pilipinas, ac mae'n cynnwys tair prif ynys: Luzon, Visayas a Mindanao. Prifddinas Ynysoedd y Pilipinas yw Metro Manila. Gwlad amaethyddol ydyw yn bennaf, gyda llawer o'r Ffilipiniaid yn byw mewn ardaloedd gwledig ac yn cynnal eu hunain drwy blannu reis, ŷd, a chnau coco, yn ogystal â gwneud gwaith amaethyddol arall. Ar draws yr ynysoedd y mae llwythau cynhenid sy'n cynnal hunaniaeth ddiwylliannol yr Ynysoedd, er gwaethaf y gwahaniaethu a'r ffaith eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion.

Mae gan y Ffilipiniaid ddiwylliant a thraddodiad unigryw sydd wedi dod o dan ddylanwad gwladychu. Daeth Cristnogaeth i'r wlad yn gyntaf drwy genhadon o Sbaen a aeth yno yn gynnar yn yr 16eg ganrif.

Hybir hawliau, heddwch a chyfiawnder gan yr IFI. Ei chred yw mai'r genhadaeth y'i galwyd iddi gan Dduw yw gweithio yn erbyn 'dad-ddyneiddio' pobl. Mae'r IFI yn byw ei rôl broffwydol fel y mae wedi'i mynegi yn Micha 6:8: 'Gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.'

Ar hyn o bryd, mae'r USPG yn gweithio mewn partneriaeth ag IFI mewn prosiectau Bywyd Cyflawn a Gofal dros y Cread, sy'n canolbwyntio ar weinidogaeth ymhlith pobl gynhenid.

**Cread Duw**
*Credwn yn un Duw, y Tad hollalluog, gwneuthurwr nef a daear, a phob peth gweledig ac anweledig.*

**Darlleniad o'r Beibl – Genesis 1:27, Genesis 2: 1–7, 15**

[27] Felly creodd Duw ddyn(olryw) ar ei ddelw ei hun; ar ddelw Duw y creodd (hwy); yn wryw ac yn fenyw y creodd hwy.

[1]Felly gorffennwyd y nefoedd a'r ddaear a'u holl luoedd. [2]Ac erbyn y seithfed dydd yr oedd Duw wedi gorffen y gwaith a wnaeth, a gorffwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith. [3]Am hynny bendithiodd Duw y seithfed dydd a'i sancteiddio, am mai ar hwnnw y gorffwysodd Duw oddi wrth ei holl waith yn creu.

[4]Dyma hanes cenhedlu'r nefoedd a'r ddaear pan grewyd hwy.

**Hanes arall am y Creu**
Yn y dydd y gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw ddaear a nefoedd, [5]nid oedd un o blanhigion y maes wedi dod ar y tir, nac un o lysiau'r maes wedi blaguro, am nad oedd yr ARGLWYDD Dduw eto wedi peri iddi lawio ar y ddaear, ac nad oedd yno ddyn i drin y tir; [6]ond yr oedd tarth yn esgyn o'r ddaear ac yn dyfrhau holl wyneb y tir. [7]Yna lluniodd yr ARGLWYDD Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn yn greadur byw.

[15]Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw.

**Myfyrdod**
Yng nghalon Mindoro Orientalaidd, yng nghanol tirwedd wyrddlas a bryniau braf, y mae cymuned Mangyaidd Sitio Gaang, Panaytayan a Mansalay. Mae'r gymuned gynhenid hon, fel nifer o rai eraill, yn dibynnu ar y tir a'i adnoddau am ei bywoliaeth a'i chynhaliaeth. Nid stori am wytnwch a goroesi yn unig yw eu stori; mae hefyd yn dystiolaeth i'r cysylltiad dwfn rhwng ysbrydolrwydd a stiwardiaeth amgylcheddol.

Mae'r Credo yn ein cadarnhau ni oll fel dilynwyr Crist, 'Yr ydym yn cydnabod mai Duw yw ein Crëwr, "gwneuthurwr nefoedd a daear".' Fe'n geilw hefyd i fod yn stiwardiaid cread Duw. Ceir adlais o hyn yn Llyfr Genesis, lle mae Duw yn ymddiried i ddynolryw y gofal am bopeth byw, gan gyhoeddi yn Genesis 2:15, 'Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw.' Gall y term 'trin' olygu ei weithio neu ei ffermio.

**(I'w barhau)**

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 27 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**
Eich dewis chi o emynau yng nghwmni Megan Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 27 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Trefor Jones-Morris, Wrecsam




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cylch Ti a Fi, Traed Bach Treffynnon



Erbyn hyn mae hi'n ddiwedd tymor yr haf arnom yng Nghylch Ti a Fi Traed Bach Treffynnon ac rydym yn ymfalchïo fod nifer y plant sy'n mynychu'r sesiynau wedi cynyddu. Sefydlwyd y cylch ym mis Medi 2024 i blant 0–4 oed, ac mae'n cael ei gynnal yn Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon ar foreau Iau o 9.30 tan 11 o'r gloch, dan arweiniad Catrin Hampton, Galluogwraig Genhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, gyda chymorth Eirian Jones a Mena Evans. Yn ystod y cyfnod anturus a phleserus hwn, rydym wedi derbyn cefnogaeth gan staff y Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant. Yn ogystal â hyn, braf yw cael dweud bod nifer o gyfeillion o'r ardal wedi bod yn barod iawn i'n cymorthwyo i redeg y Cylch.

Yn ddiweddar, derbyniwyd grant oddi wrth bwyllgor Dydd Gweddi'r Byd a fu'n gymorth mawr i brynu cwpwrdd storio adnoddau a theganau. Nod y Cylch yw rhoi croeso cynnes i'r plant a'u gwarchodwyr gan obeithio y llwyddwn i adeiladu'r camau nesaf ar gyfer cyswllt â'r eglwys a'r iaith Gymraeg yn y dyfodol.

*Mena Evans*

## Llongyfarch yn Henaduriaeth Môn

Croesawyd Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, y Parchg Christopher Prew, i Henaduriaeth Môn ddydd Mawrth, 24 Mehefin. Yng nghyfarfod yr hwyr llongyfarchodd a chyflwynodd dystysgrif i dri blaenor ar gyflawni deugain mlynedd o wasanaeth. Yna, cafwyd anerchiad llawn anogaeth ganddo a'n heriodd i ddal ati a bod yn gadarnhaol ein hagwedd er mwyn gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau.



Y Parchg Christopher Prew, Mr Dafydd Parry, Penygarnedd, Rhos-goch; Mrs Gladys Hughes a Mrs Menna Roberts, Cana, Rhostrehwfa; a'r Athro Eryl Wynn Davies, Llywydd Henaduriaeth Môn

## Taro'r Post

Annwyl Olygydd,

**Cyf. Hoff Bwnc yn yr Ysgol?**

Tybed a gawsoch unrhyw ymateb i erthygl arbennig Rosa Hunt a gafwyd yn rhifyn 224 (11 Mehefin) o *Cenn@d*. Arbennig am sawl rheswm – dof atynt yn fuan. Ond cyn hynny, tybed a gafwyd unrhyw ymateb i'r erthygl? Beth sydd ei angen i'n cynhyrfu yn ddigon i anfon nodyn at y Golygydd neu i gael unrhyw ymateb!

Fe ddylsai cynnwys yr erthygl godi gwallt ein pen a'n cynhyrfu yn ddigon nid yn unig i ymateb yn uniongyrchol i *Cenn@d* ond i fynd llawer pellach a chysylltu â'n Haelodau Seneddol, Aelodau o'r Senedd (Caerdydd), Cyngor Sir a llywodraethwyr ein hysgolion!

Mae'n amlwg fod llawer o benaethiaid, llywodraethwyr, staff y Cynghorau Sir a'r rhai hynny sydd ynghlwm ag addysg uwchradd yng Nghymru yn anwybyddu'r gyfraith lle mae darpariaeth Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn y cwestiwn. Roedd 'cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn dweud nad oedd eu sefydliadau yn cynnig y pwnc hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4; dim ond hyd at Gyfnod Allweddol 3 – **sy'n mynd yn groes i fandad cyfreithiol Cymru**'. Canlyniad hyn ydi mai ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn gallu astudio'r pwnc at lefel A, gan roi terfyn ar gyrsiau yn ein prifysgolion.

Os nad ydych wedi mynd i'r drafferth i ddarllen yr erthygl yn iawn, erfyniaf arnoch i droi yn ôl ati ac ymateb mewn unrhyw ffordd y gellwch. Does ryfedd mai dirywio y mae safonau cymdeithasol yng Nghymru pan ydym mor ddi-hid ac anfodlon i ymateb hyd yn oed pan mae pobl yn tynnu ein sylw at yr hyn sydd yn mynd ymlaen.

Diolch unwaith eto i Rosa Hunt am ei herthygl arbennig. Dewch, ymatebwch, dim ond un bys sydd raid ei godi i gysylltu â'n cynrychiolwyr ar draws Cymru fach.

Yn gywir,

*Arthur Wyn Rowlands*
*Capel Tegid*
*Y Bala*

# Undeb y Bedyddwyr yn creu Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs) i hybu cenhadaeth

*Yr Athro Iwan Davies, Cyfreithiwr Mygedol UBC, sy'n cynnig esboniad am gynlluniau cyffrous sydd ar y gweill i sefydlu Sefydliadau Corfforedig Elusennol (Charitable Incorporated Organisations, CIOs) rhanbarthol newydd i ganolbwyntio ar genhadaeth.*

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wrthi'n gweithio i greu Sefydliadau Corfforedig Elusennol (CIOs) rhanbarthol newydd ledled Cymru. Bydd y pedwar neu bum Sefydliad hyn yn darparu fframwaith cyfreithiol cadarn i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd yn Adroddiad 2041, yn enwedig o ran cyflogaeth, cyllid ac eiddo ar lefel Cymanfa. Nod y fenter hon yw ein harfogi'n well fel Bedyddwyr yng Nghymru ar gyfer cenhadaeth Gristnogol gyfoes. Wrth wneud hynny cawn ein calonogi gan eiriau Paul yn ei lythyr at yr Effesiaid 4:12, 'Gwnaeth hyn i baratoi ei bobl ar gyfer gweithredoedd da, fel y gellir adeiladu corff Crist.'

Bydd cyfansoddiad pob Sefydliad yn adlewyrchu hunaniaeth ac argyhoeddiadau teulu'r Bedyddwyr Cymreig, wedi'i hadeiladu ar y ffydd Gristnogol fel y'i mynegir yn egwyddorion hanesyddol y Bedyddwyr. Bydd y cyfansoddiadau hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gweinidogaeth a chenhadaeth, gan annog eglwysi i gydweithio, cefnogi gweithgareddau eglwysig lleol, trefnu addoliad, darparu addysg grefyddol a gofal bugeiliol, estyn allan, gwasanaethu'n gymunedol, ac ymroi i ymdrechion elusennol eraill sy'n



adlewyrchu cenhadaeth yn ein cyd-destun cyfoes.

Bydd cynllun cenhadol yn elfen hanfodol yng ngwaith y Sefydliadau newydd, rhanbarthol hyn. Byddant yn fodd o hwyluso cydweithio rhwng Cymanfaoedd, eglwysi a chymuned ehangach y Bedyddwyr ac o feithrin twf ac undod yng ngwaith yr Efengyl. Bydd angen i ni ffurfio timau, gosod amcanion a gweithio gyda'n gilydd ar gyfer 'budd clir', sef yr egwyddor a fabwysiadwyd yn hanesyddol gan Gymanfaoedd Bedyddwyr Cymru ym mhob menter newydd.

Dros y misoedd nesaf, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, bydd y Sefydliadau Corfforedig Elusennol rhanbarthol yn cychwyn ar broses eang o gynllunio cenhadol. Bydd hyn yn cynnwys gwaith bwriadol ar lefel ranbarthol i nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd; ein cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf; yr adnoddau sydd eu hangen i'n helpu a'r math o ffrwyth rydym yn gweithio tuag ato. Yn ystod y broses gynllunio hon gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a rhannu syniadau ar gyfer ein cynlluniau cenhadol. Wrth i ni ddatblygu hyn ar lefel ranbarthol, byddwn yn rhoi sylw i'r canlynol:

- cynnull timau o unigolion ymroddedig ac amrywiol a all ddod â safbwyntiau amrywiol i'r amlwg
- adnabod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau ar lefel ranbarthol
- gwneud gwaith uniongyrchol i gefnogi'r Sefydliad Corfforedig Elusennol a gweithredu strategaeth genhadol sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth.

Wrth ymroi i'r gwaith hwn rydym yn edrych mewn ffydd y tu hwnt i'r rhagamcanion data sydd yn Adroddiad 2041. Ein hymateb i'r data sy'n dangos dirywiad o ran rhifau yw adeiladu undod pwrpasol yn ein tasg o ddathlu ein rôl fel disgyblion a llysgenhadon Crist a'i Eglwys. Fe'n gelwir i adrodd ein stori yn hyderus ac i arfogi ein hunain ymhellach ar gyfer gwaith estyn allan, cenhadaeth a gwasanaeth Cristnogol. Gall strwythurau newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ein cynorthwyo fel eglwysi a chredinwyr yn yr alwad uchel hon.

Yn anad dim, fe'n gelwir i weddi, fel unigolion, eglwysi a Chymanfaoedd, ym mhopeth a wnawn i adeiladu'r Deyrnas wrth i ni barhau i rannu'r llawenydd o adnabod Iesu Grist a'i Efengyl.

## Cyflwyno Beiblau i ddisgyblion Ysgol Bancyfelin

Pleser gan Gapel Bancyfelin oedd cyflwyno copi yr un o'r Beibl i ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin, sir Gaerfyrddin. Dyma orchwyl pleserus blynyddol sy'n cael ei gyflawni er cof am y ddiweddar Miss Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon o Gapel Bancyfelin ar hyd ei hoes ac yn gyn-ddisgybl o'r ysgol.




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru